**CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU**

**DEDDF ADNODDAU DŴR 1991**

# IS-DDEDDFAU GWIALEN A LEIN (EOGIAID A BRITHYLLOD Y MÔR) CYMRU 2017

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 210 a pharagraff 6 o Atodlen 25, Deddf Adnoddau Dŵr 1991, yn gwneud yr is-ddeddfau canlynol.

**Is-ddeddf 1 – Teitl**

Gellir dyfynnu'r is-ddeddfau hyn fel Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017.

**Is-ddeddf 2 – Cymhwysiad**

Bydd yr is-ddeddfau hyn yn cael eu darllen ochr yn ochr ag Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995, fel y'u diwygiwyd.

Yng Nghymru, bydd yr is-ddeddfau hyn yn berthnasol i'r afonydd hynny a'u hisafonydd, pan nodir hyn yn benodol.

Bydd yr is-ddeddfau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2026.

**Is-ddeddf 3 – Dehongliad**

Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall:

(a) Bydd “Cyfoeth Naturiol Cymru” yn golygu Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

(b) Bydd "Cymru" yn golygu Cymru gyfan, ynghyd â'r rhannau hynny o'r môr tiriogaethol sy'n gyfagos â Chymru hyd at chwe milltir o'r gwaelodlinau y mae lled y môr hwnnw yn cael ei fesur ohonynt.

(c) Bydd "brithyllod y môr" yn golygu unrhyw bysgodyn o deulu'r eog a elwir yn aml yn frithyll y môr neu'n sewin, gan gynnwys brithyllod mudol ac mae hefyd yn cynnwys rhan o frithyll y môr.

(ch) Bydd “abwyd" yn golygu pryfed genwair, corgimychiaid a berdys, naill ai'n naturiol neu'n artiffisial.

(d) Heblaw pan fydd yn ofynnol gan y cyd-destun, bydd yr holl eiriau a'r mynegiannau a

ddefnyddir yn yr is-ddeddfau hyn yn cael eu hystyr wedi'u haseinio iddynt gan Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991 neu unrhyw addasiad neu ailddeddfiad statudol sy'n rhan ohonynt.

**Is-ddeddf 4 – Dal a rhyddhau gyda gwialen a lein (eog)**

Yn unol â'r darpariaethau a gynhwyswyd yn yr is-ddeddfau pysgodfeydd cyfredol sy'n effeithio ar Afon Dyfrdwy, Afon Hafren ac Afon Gwy, bydd unrhyw berson sy'n mynd ag unrhyw eog, byw neu farw, a ddaliwyd gan wialen a lein mewn unrhyw afon yng Nghymru heb awdurdod ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw yn euog o drosedd.

Ni fydd yr is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw berson sy'n cymryd eog yn gyfreithlon ac yn ei ddychwelyd i'r dŵr ar unwaith gyda chyn lleied â phosibl o anafiadau.

**Is-ddeddf 5 – Dal a rhyddhau gyda gwialen a lein (brithyll y môr)**

Bydd unrhyw berson sy'n mynd ag unrhyw frithyll y môr, byw neu farw, a ddaliwyd gan wialen a lein mewn unrhyw un o'r afonydd a'u hisafonydd canlynol cyn 1 Mai heb awdurdod ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw yn euog o drosedd:

i) Afon Tywi
ii) Afon Taf (Sir Gaerfyrddin)
iii) Afon Cleddau Wen
iv) Afon Teifi
v) Afon Dyfi
vi) Afon Rhymni
vii) Afon Cleddau Ddu
viii) Afon Wysg
ix) Afon Tawe
x) Afon Llwchwr
xi) Afon Gwendraeth
xii) Afon Aeron
xiii) Afon Ystwyth
xiv) Afon Dysynni
xv) Aon Taf (Caerdydd)
xvi) Afon Elái
xvii) Afon Afan
xviii) Afon Nedd
xix) Afon Arto

xx) Afon Glaslyn

xxi) Afon Dwyryd

xxii) Afon Seiont

xxiii) Afon Nyfer

Ni fydd yr is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw berson sy'n cymryd brithyll y môr yn gyfreithlon ac yn ei ddychwelyd i'r dŵr ar unwaith gyda chyn lleied â phosibl o anafiadau.

**Is-ddeddf 6 – Cyfyngiad ar faint (brithyll y môr)**

Bydd y paragraff canlynol yn cael ei gynnwys ar ôl Is-ddeddf 7 o Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995 (Cyfyngiadau ar Faint – Brithyll y Môr (ac eithrio brithyllod seithliw)):

> "Yn unol â'r darpariaethau a gynhwyswyd yn yr is-ddeddfau pysgodfeydd cyfredol sy'n effeithio ar Afon Dyfrdwy, Afon Hafren ac Afon Gwy, bydd unrhyw berson sy'n mynd ag unrhyw frithyll y môr, byw neu farw, mwy na 60 centimedr o hyd a ddaliwyd gan wialen a lein mewn unrhyw afon neu isafon yng Nghymru yn euog o drosedd. Caiff maint y pysgodyn ei bennu trwy fesur o flaen y trwyn i ben y cynffon.
>
> Ni fydd yr is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw berson sy'n mynd â brithyll y môr, byw neu farw, mwy na 60 centimedr o hyd yn gyfreithlon ac yn ei ddychwelyd i'r dŵr ar unwaith gyda chyn lleied â phosibl o anafiadau."

**Is-ddeddf 7 – Dim pysgota ag abwyd**

(1) Ar gyfer paragraffau (a)(1) a (2) o Is-ddeddf 9 Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995 (Defnyddio Maglau ac Abwyd gyda Gwialen a Lein) (Eogiaid a Brithyllod), amnewidir –

"(a) Eogiaid a Brithyllod

(1) Yn unol â'r darpariaethau a gynhwyswyd yn yr is-ddeddfau pysgodfeydd cyfredol sy'n effeithio ar Afon Dyfrdwy, Afon Hafren ac Afon Gwy, ni chaiff unrhyw berson bysgota am, cymryd, neu geisio pysgota am neu gymryd unrhyw eog gyda gwialen a lein gan ddefnyddio unrhyw abwyd o unrhyw afon neu isafon yng Nghymru.

(2) Ni chaiff unrhyw berson bysgota am, cymryd, neu geisio pysgota am neu gymryd unrhyw frithyll y môr gyda gwialen a lein gan ddefnyddio unrhyw abwyd o unrhyw un o'r afonydd a'u hisafonydd canlynol cyn 1 Mai heb awdurdod ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw:

i) Afon Tywi
ii) Afon Taf (Sir Gaerfyrddin)
iii) Afon Cleddau Wen
iv) Afon Teifi
v) Afon Dyfi
vi) Afon Rhymni
vii) Afon Cleddau Ddu
viii) Afon Wysg
ix) Afon Tawe
x) Afon Llwchwr
xi) Afon Gwendraeth
xii) Afon Aeron
xiii) Afon Ystwyth
xiv) Afon Dysynni
xv) Afon Taf (Caerdydd)
xvi) Afon Elái
xvii) Afon Afan
xviii) Afon Nedd
xix) Afon Arto
xx) Afon Glaslyn
xxi) Afon Dwyryd
xxii) Afon Seiont
xxiii) Afon Nyfer"

(2) Mae paragraffau (a)(3)(i), (iii) a (iv) o Is-ddeddf 9 wedi'u dirymu.

(3) Ar gyfer paragraff (a)(4) o Is-ddeddf 9, amnewidir –

"(4) Ni chaiff unrhyw berson bysgota am, cymryd, neu geisio pysgota am neu gymryd unrhyw eogiaid neu frithyllod mudol gyda gwialen a lein gan ddefnyddio fflôt yn ogystal ag unrhyw fagl yn Ardal Pysgodfeydd Afon Gwy."

(4) Mae paragraffau (a)(5)(iii) o Is-ddeddf 9 wedi'u dirymu.

(5) Ar ôl paragraff (a)(5) o Is-ddeddf 9, bydd y canlynol yn cael ei gynnwys –

"(5A) Ni chaiff unrhyw berson bysgota am, cymryd, neu geisio pysgota am neu gymryd unrhyw eogiaid neu frithyllod mudol trwy ddefnyddio unrhyw fagl heblaw am bluen

artiffisial sy'n pwyso llai na 5 gram, a hyd yn oed bryd hynny, ni cheir atodi unrhyw bwysau i'r lein bysgota, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn Ardal Pysgodfeydd Afon Wysg rhwng yr ail ddiwrnod o fis Mawrth a'r diwrnod cyntaf o'r mis Mehefin canlynol."

(6) Ar gyfer paragraff (a)(7) o Is-ddeddf 9, amnewidir –

"(7) Ni chaiff unrhyw berson bysgota am, cymryd neu geisio pysgota am unrhyw frithyllod nad ydynt yn fudol gan ddefnyddio gwialen a lein mewn unrhyw fodd ar wahân i ddefnyddio pluen artiffisial yn Ardal Pysgodfeydd Afon Wysg ar unrhyw adeg."

**Is-ddeddf 8 – Bachau**

1. Ar gyfer paragraff (a) o Is-ddeddf 10 Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995 (Bachau a Bachu Pysgod), amnewidir –

"(a) Bachau nad ydynt yn bigog neu fachau gyda'r adfach wedi'i dynnu ymaith

(1) Yn unol â'r darpariaethau a gynhwyswyd yn yr is-ddeddfau pysgodfeydd cyfredol sy'n effeithio ar Afon Dyfrdwy, Afon Hafren ac Afon Gwy, ni chaiff unrhyw berson bysgota am, cymryd, neu geisio pysgota am neu gymryd unrhyw eog neu frithyll y môr gyda gwialen a lein o afon neu isafon yng Nghymru heblaw ei fod yn defnyddio bachau nad ydynt yn bigog neu fachau gyda'r adfach wedi'i dynnu ymaith.

(2) Ni chaiff unrhyw berson ddefnyddio abwyd neu fagl sy'n cynnwys mwy nag un bach, heblaw pan na fydd maint yr agoriad o'r goes i'r pwynt yn mesur mwy na 10 milimedr (0.375 modfedd), ond, fel eithriad, gall agoriad bachau sy'n gysylltiedig ag abwyd plwg fod cymaint â 13 milimedr (0.5 modfedd) os caiff yr abwyd plwg dan sylw ei ddefnyddio heb unrhyw bwysau. Ni cheir gosod mwy na naw bach ar unrhyw abwyd neu fach mewn unrhyw achos ac ni cheir cysylltu unrhyw bwysau neu bwysau plwm o dan y fagl neu abwyd.

(aa) Bachau sengl

Yn unol â'r darpariaethau a gynhwyswyd yn yr is-ddeddfau pysgodfeydd cyfredol sy'n effeithio ar Afon Dyfrdwy, Afon Hafren ac Afon Gwy, ni chaiff unrhyw berson bysgota am, cymryd, neu geisio pysgota am neu gymryd unrhyw frithyll y môr gyda gwialen a lein o unrhyw afon neu isafon yng Nghymru gan ddefnyddio unrhyw

abwyd sydd ag eitemau wedi'u gosod arno, heblaw am un pryf genwair ar fach sengl nad yw'n bigog neu fach sydd â'r adfach wedi'i dynnu ymaith, a bydd agoriad unrhyw fach o'r fath, o'r goes i'r pwynt, yn cael ei gyfyngu i fesuriad o 8 milimedr."

2 Ar ôl paragraff (b) o Is-ddeddf 10, bydd y canlynol yn cael ei gynnwys –

"(c) Bachau trebl

Ni fydd unrhyw berson yn pysgota am, cymryd, neu geisio pysgota am neu gymryd unrhyw eog neu frithyll y môr gyda gwialen a lein o unrhyw afon yng Nghymru, heb gynnwys Afon Dyfrdwy, Afon Hafren ac Afon Gwy, gan ddefnyddio abwyd neu fagl pysgota sydd ag un bach trebl neu ragor."

**Is-ddeddf 9 – Cyfyngiadau ar ddal**

Mae Is-ddeddf 12A o Is-ddeddfau Gwialen a Lein 1995 (Cyfyngiadau ar Ddal) wedi'i dirymu.

**GWEITHREDWYD** fel Gweithred gan
**GORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU**
trwy osod y Sêl Gyffredin yng ngŵydd:

Llofnod: ............................................

Enw mewn llythrennau bras: DAVID GEORGE CAVELL

Cyfeiriad: 29, MOEL CASNEWYDD
CAERDYDD
CF24 0TP

Galwedigaeth: CYFEITHIWR A PENNAETH GWASNAETHAU CYFEITHIOL